# Atodiad 9 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Castell-nedd Port Talbot

## Tystiolaeth gan y Cyngor

1. Yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, comisiynir gwasanaethau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. Darperir gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc yn fewnol. Dywedodd fod y gefnogaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Gofalwyr yn cael ei hanelu at ofalwyr sy'n oedolion a rhieni sy'n ofalwyr.

2. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod gofalwyr yn flaenoriaeth allweddol. Tynnodd sylw at y ffaith ei fod mewn sefyllfa unigryw fel yr ardal awdurdod lleol gyda'r gyfran uchaf o ofalwyr yng Nghymru, ynghyd â niferoedd uchel o bobl wedi'u cofrestru'n anabl a niferoedd uchel o ardaloedd difreintiedig. Dywedodd fod y cynnydd yn ei boblogaeth sy'n heneiddio yn rhoi straen ychwanegol ar ofalwyr hŷn sy'n cefnogi unigolion ag anghenion cymhleth, sydd hefyd yn rheoli eu cyflyrau iechyd eu hunain ar yr un pryd. Dywedodd y Cyngor fod argaeledd gofal ffurfiol a phwysau cynyddol ar y GIG i ryddhau pobl o'r ysbyty yn brydlon, yn gwaethygu'r sefyllfa.

3. Dywedodd y Cyngor ei fod, ym mis Medi 2022, wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Gofalwyr a Swyddog Datblygu Gofalwyr i hwyluso ymdrechion wedi'u targedu i asesu dull presennol y gwasanaeth a gwella'r cydweithio rhwng Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Pobl Ifanc a darparwyr wedi'u comisiynu. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod nifer o gyfleoedd i wella'r system wedi cael eu nodi yn ystod adolygiad mewnol o wasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys adrodd a chofnodi asesiadau o anghenion a chynlluniau gofal gofalwyr, cryfhau'r broses brysbennu i sicrhau mynediad cynnar at Wybodaeth, Cyngor a Chymorth ("IAA"), gan symleiddio'r mecanweithiau atgyfeirio ac atgyfnerthu prosesau pontio. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddeall 'daith' gofalwr yn fanwl, gan ei bod yn debygol y byddai pwyntiau ar y daith honno lle gallai'r Cyngor ymyrryd a helpu, heb iddi waethygu i fod yn argyfwng. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yn cydnabod bod angen iddo nodi gofalwyr yn gynnar a gweithio ar draws yr ystod oedran drwy gysylltu ag addysg a gwasanaethau ieuenctid.

4. Esboniodd y Cyngor y bydd ail gam ei adolygiad yn canolbwyntio ar ehangu ei gylch gwaith i gynnwys gofalwyr ifanc ac ymgysylltu'n benodol â gofalwyr. Eglurodd ei fod wedi cynllunio prosiect i helpu i nodi gofalwyr yn gynharach, cryfhau darpariaeth IAA a gwella canlyniadau gofalwyr. Dywedodd y Cyngor bod cronfa ddata cofnodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei hailddatblygu i gyd-fynd â'r gwaith hwn. Dywedodd fod y system, ar hyn o bryd, yn cyfyngu ar yr hyn y gellid ei gofnodi ar gyfer gofalwyr, megis eu Cynlluniau Cymorth. O ganlyniad, cafodd anghenion gofalwyr eu cofnodi a'u cefnogi drwy gofnod y person sy'n derbyn gofal, a oedd wedi effeithio ar y data a gasglwyd, gan nad oedd yn gallu adrodd ar nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a oedd wedi arwain at gynllun cymorth i ofalwyr (gweler Tabl 2). Dywedodd nad oedd yn rhoi darlun cywir o'r gefnogaeth statudol a ddarperir i ofalwyr di-dâl. Dywedodd y Cyngor bod y gwaith ailddatblygu yn gyfle i newid a gwella hyn a galluogi'r Cyngor i gofnodi ac adrodd ar gynlluniau cefnogi gofalwyr.

5. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cynnal prosiect arddangos i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hadnabod yn briodol ar ei systemau, gan mai ei opsiwn presennol oedd naill ai cofnodi gofalwr fel 'gofalwr' neu fel 'perthynas agosaf'. Yn ogystal, dywedodd y Cyngor ei fod wedi ystyried elfen gymesuredd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant") ac, yn hytrach na chael un asesiad, ei fod wedi rhannu'r asesiad yn 2 ran. Y cyntaf oedd siarad â'r gofalwr a deall ei anghenion a chryfhau ei IAA, drwy gynnig cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar, a'r ail oedd sgwrs llawer mwy manwl gyda Gweithiwr Cymdeithasol ynghylch y gofynion statudol a oedd yn arwain at gynllun cymorth i ofalwr, petai IAA ar ei ben ei hun yn annigonol i ddiwallu anghenion gofalwr. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ofalwyr a'i fod wedi rhyddhau capasiti yn y Gwasanaeth Gofalwyr i ddarparu gwasanaethau cefnogi.

6. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn ail-ddatblygu ei gronfa ddata cofnodi Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n cynnwys rhan benodol i ofalwyr a chofnodi asesiadau o anghenion gofalwyr a chynlluniau cymorth i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n safonol. Dywedodd y byddai hyn yn gwella'r broses o gofnodi data sy'n ymwneud â gofalwyr ac yn caniatáu i ddata gael ei echdynnu a'i ddadansoddi. Dywedodd y Cyngor y byddai'r gronfa ddata yn caniatáu i unigolion gael eu cysylltu â'i gilydd, er enghraifft, cysylltu'r gofalwr â'r person sy'n derbyn gofal.

7. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod y datblygiadau hyn yn fan cychwyn i ddatblygiad llawer mwy. Dywedodd nad yw gofalwyr "eisiau popeth dan haul"; maent am gael pethau sydd eu hangen arnynt i'w dyrchafu ar adegau penodol o straen a gwneud eu gwaith o ofalu ychydig yn haws. Dywedodd ei fod hefyd yn mynd i adolygu'r defnydd o

Daliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr drwy eu hawl eu hunain a darpariaeth gwyliau byr, ac ymgorffori canfyddiadau'r ymchwiliad hwn i'w waith adolygu parhaus.

8. Dywedodd y Cyngor nad oedd yn cadw cofrestr o ofalwyr sy'n oedolion, ond roedd 278 o ofalwyr ifanc wedi'u cofrestru.

9. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, os bydd gofalwr yn nodi ei fod yn ofalwr pan fydd yn cysylltu â'r Cyngor, y bydd yn cael gwybod am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ac yn cael ei atgyfeirio at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. Yna bydd y Gwasanaeth Gofalwyr yn cysylltu â'r gofalwr ac yn trefnu i asesu eu hanghenion. Dywedodd y Cyngor, ar ôl i'r Gwasanaeth Gofalwyr asesu anghenion y gofalwr, fod y Gwasanaeth Gofalwyr wedi darparu'r gefnogaeth angenrheidiol, er enghraifft, gwasanaeth gwarchod a mynediad at weithgareddau a digwyddiadau. Dywedodd y Cyngor, pe bai'r Gwasanaeth Gofalwyr yn canfod angen statudol, y byddai'r atgyfeiriad yn cael ei anfon yn ôl i'r Cyngor er mwyn i'w dimau Gwaith Cymdeithasol weithredu elfen statudol y cynllun cefnogi. Dywedodd y Cyngor, pe bai gofalwr yn cysylltu â'r Gwasanaeth Gofalwyr yn uniongyrchol, y byddai'n rhoi gwybod iddynt am eu hawliau ac yn cynnig cefnogaeth iddynt ac yn trosglwyddo eu manylion i'r Cyngor at ddibenion cofnodi. Dywedodd y Cyngor fod y broses yn un gymhleth a'i fod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr i edrych ar sut y gellid ei symleiddio.

10. Dywedodd y Cyngor bod pob asesiad, ar ôl eu cwblhau gan y Gwasanaeth Gofalwyr, yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Dywedodd fod y Gwasanaeth Gofalwyr wedi darparu elfennau ataliol ac ymyrraeth gynnar o gymorth a bod Gweithwyr Cymdeithasol yn cwblhau'r elfen statudol, lle'r oedd angen hynny. Dywedodd y Cyngor, pe bai newid yn amgylchiadau'r gofalwr a'u bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y byddai'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r gofalwr yn cael ei hysbysu am y newidiadau er mwyn eu hailasesu. Dywedodd y gallai'r Gwasanaeth Gofalwyr neu'r Gweithiwr Cymdeithasol gwblhau unrhyw ailasesiad. Dywedodd y Cyngor, pe bai newid yn amgylchiadau gofalwr ac nad oeddent yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y byddai angen i'r gofalwr naill ai fynd yn uniongyrchol at y Gwasanaeth Gofalwyr neu gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ei 'ddrws ffrynt'.

11. Yn achos gofalwyr ifanc, dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot eu bod yn aml yn cael eu canfod drwy addysg neu drwy waith Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghartref y teulu. Dywedodd y Cyngor bod y gwaith o gofnodi asesiad o anghenion gofalwr ifanc yn seiliedig ar effaith eu rôl gofalu ar weithgareddau o ddydd i ddydd, yn hytrach na fformat

asesu ffurfiol.  Dywedodd mai'r Gweithiwr Cymdeithasol oedd yn cofnodi'r prif sgyrsiau gyda'r teulu am ei sefyllfa yn ei chyfanrwydd, ond nid fel asesiad o anghenion gofalwr ifanc unigol.  Dywedodd y Cyngor bod anghenion y gofalwr ifanc yn cael eu nodi drwy'r broses hon, a'u bod yn cael cynnig cefnogaeth a gweithgareddau.  Cydnabu'r Cyngor nad oedd ei broses ar gyfer gofalwyr ifanc mor glir a strwythuredig ag yr oedd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a bod cyfleoedd i symleiddio a gwella'r broses.  Dywedodd y Cyngor, pe bai newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r gofalwr ifanc, y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r unigolyn, yn cwblhau asesiad o anghenion gofalwr ac yn atgyfeirio'r person ifanc at ei Wasanaeth Ieuenctid i benderfynu a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol.  Dywedodd y Cyngor nad oedd ganddo broses ffurfiol ar gyfer monitro a oedd canlyniad asesiad gofalwr ifanc yn parhau i ddiwallu ei anghenion.

12. Dywedodd y Cyngor, pe bai gofalwr ifanc yn gwrthod asesiad, bod hynny yn cael ei gofnodi ar gofnod y person sy'n derbyn gofal.  Yn yr un modd, dywedodd pe bai gofalwr ifanc yn gwrthod asesiad, y byddai'n cael ei gofnodi gan y Gweithiwr Cymdeithasol.

13. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot, pan fo person sy'n derbyn gofal yn byw yn ei ardal, ond bod y gofalwr yn byw y tu allan i'r ardal, y byddai'r Cyngor yn cynnig asesiad o anghenion gofalwr a gwasanaethau ataliol.  Dywedodd y byddai'r tîm sy'n goruchwylio gofal a chymorth y person sy'n derbyn gofal fel arfer yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gwblhau'r asesiad o anghenion y gofalwr.

14. Cydnabu'r Cyngor fod cefnogi'r broses o bontio gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant yn faes y mae angen ei ddatblygu a'i gryfhau.  Roedd yn cydnabod ei fod yn gyfnod hollbwysig i ofalwyr ifanc a bod angen rhagor o gymorth.

15. Dywedodd y Cyngor y byddai unrhyw anghenion ychwanegol i ganiatáu i ofalwr gymryd rhan lawn yn ei asesiad yn cael eu nodi gan y tîm Un Pwynt Cyswllt ("SPOC") a byddai'n edrych ar ganfod cymorth i hwyluso ei gyfranogiad, er enghraifft, defnyddio iaith arwyddion a chyfieithwyr.  Dywedodd y byddai staff hefyd yn gofyn am gyngor a chefnogaeth gan swyddogion eraill y Cyngor, e.e. staff iechyd meddwl neu'r tîm Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ("ASD"), ar sut i weithio gydag unigolion.

16. O ran hyfforddiant, dywedodd y Cyngor bod ei Weithwyr Cymdeithasol yn gymwys a bod ei staff 'drws ffrynt' naill ai'n Weithwyr Cymdeithasol cymwysedig neu'n gweithio tuag at eu cymwysterau. Dywedodd y Cyngor nad oedd ganddo raglen hyfforddi gyfredol ar gyfer asesu anghenion gofalwyr.

17. Dywedodd y Cyngor ei fod yn gweithio ar draws timau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a'r gwasanaethau cefnogi a'r gweithgareddau sydd ar gael. Dywedodd fod ei Gydlynwyr Ardal Leol yn gweithio'n agos gyda gofalwyr ac yn helpu i ganfod gofalwyr; dywedodd nad yw pobl yn aml yn ystyried eu hunain yn ofalwyr a bod y Cydlynwyr Ardal Lleol yn gallu egluro eu hawliau a'u cyfeirio at wasanaethau cefnogi. Eglurodd y Cyngor ei fod hefyd yn bwriadu gweithio gyda meddygon teulu i adnabod y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn gynnar i ddefnyddio ymyrraeth gynnar
ac atal amgylchiadau rhag troi'n argyfwng. Dywedodd y Cyngor ei fod am i ofalwyr gael llais cryfach i adnabod eu hunain fel gofalwyr a theimlo'n ddiogel i siarad am yr effaith yr oedd eu rôl gofalu yn ei chael arnynt.

18. Eglurodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot nad oedd yn cynnal unrhyw wiriadau nac archwiliadau ansawdd ar asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan y Gwasanaeth Gofalwyr. Dywedodd fod hyn, fodd bynnag, yn rhan o'r adolygiad parhaus o wasanaethau gofalwyr. Dywedodd y Cyngor nad oedd yn cynnal archwiliadau ansawdd ar yr asesiadau gofalwyr ifanc a gwblhawyd ond roedd ei staff o'r Gwasanaeth Ieuenctid eisoes wedi mynegi pryder nad oedd y ffurflenni ticio blychau a gwblhawyd (y darparwyd enghreifftiau ohonynt i'r ymchwiliad hwn) yn addas, a'i fod yn gweithio ar ddatblygu asesiad mwy strwythuredig, trylwyr a pherthnasol. Dywedodd y Cyngor hefyd, yn hanesyddol, nad oedd wedi gofyn am unrhyw adborth gan ofalwyr sy'n oedolion na phobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwyr ifanc o ran eu bodlonrwydd â'r asesiadau a gwblhawyd a'u canlyniadau. Eglurodd y Cyngor ei fod, fel rhan o'r gwaith adolygu sy'n cael ei wneud, wedi dechrau arolwg i gasglu barn a safbwyntiau pobl am wasanaethau gofalwyr sy'n cael eu darparu, ac roedd yn adolygu tua 300 o ymatebion. Dywedodd y Cyngor fod ei Wasanaeth Ieuenctid yn gofyn am adborth gan ofalwyr ifanc i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu eu hanghenion.

19. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei fod yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a oedd wedi nodi blaenoriaethau o ran gofalwyr; roedd y rhain yn cynnwys adolygiad o asesiadau o anghenion gofalwyr, gwybodaeth a chysondeb gwybodaeth ar draws y rhanbarth, a hyrwyddo hawliau gofalwyr. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn aelod o Rwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan ("COLIN"), a oedd, yn ei farn ef, yn ddefnyddiol, yn gadarnhaol ac yn gefnogol yn ystod ei

adolygiad o wasanaethau gofalwyr ac ar gyfer rhannu gwahanol fodelau darparu mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.  Dywedodd y bu'n ddefnyddiol cael safbwyntiau ar y cyd a chael rhywle i droi ato gyda chwestiynau.  Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd wedi cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe ac wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Alban mewn perthynas â gwasanaethau gofalwyr.

20. Darparodd y Cyngor gopïau o'i adroddiadau monitro contractau ar gyfer Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot i'r ymchwiliad a dywedodd fod ei dîm comisiynu wedi cyfarfod â'r Gwasanaeth Gofalwyr yn fisol i drafod unrhyw broblemau a gafwyd.  Darparodd y Cyngor gopïau hefyd o'i daflenni gwybodaeth i ofalwyr ifanc, a'i arweiniad ar asesu gofalwyr ifanc a'i Lawlyfr o Fesurau ar gyfer Gweithgareddau a Chanlyniadau Gofalu.

21. Esboniodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot fod gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei ddarparu gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ar gyfer oedolion a'i fod yn comisiynu eiriolaeth broffesiynol, annibynnol sy'n canolbwyntio ar yr oedolyn gan 'Mental Health Matters'.  Dywedodd fod ei Gydlynwyr Ardal Leol yn aml yn gweithredu fel eiriolwyr.

22. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Ymchwilio hefyd ddarparu'r data cydraddoldeb a gofnodwyd ar gyfer gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion yn 2022/2023 i'r ymchwiliad. Darparodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ddata yn ymwneud â rhywedd, dewis iaith, crefydd ac ethnigrwydd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a data rhyw, anabledd ac ethnigrwydd ar gyfer gofalwyr ifanc.  O ran rhywedd, roedd 75% o ofalwyr sy'n oedolion yn fenywaidd a 25% yn wrywaidd, ac, ar gyfer gofalwyr ifanc, roedd 72% yn fenywaidd a 28% yn wrywaidd.  Lle cofnodwyd ethnigrwydd, sef ar gyfer 36% o'r oedolion yr aseswyd eu hanghenion, cofnodwyd 67% fel Gwyn a 33% fel Cymreig.  Yn achos gofalwyr ifanc, cofnodwyd bod 6% yn Brydeinig heb fod yn wyn.  Cofnodwyd dewis iaith 29% o oedolion yr aseswyd eu hanghenion, gyda'r mwyafrif yn ffafrio Saesneg a chyfran fechan yn ffafrio Cymraeg.

### Tystiolaeth gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot

23. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn elusen sy'n derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol a'r Gronfa Integredig Ranbarthol a ddelir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

24. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot wrthym ei fod yn darparu gwasanaethau i oedolion sy'n ofalwyr yn ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Eglurodd ei fod, ers 2009, wedi cael cyllid craidd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddarparu gwasanaeth IAA i ofalwyr di-dâl yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd na chafodd ei gomisiynu erioed gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot i ddarparu asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd, yn dilyn gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ei bod yn ofynnol iddo gynnal 160 o asesiadau gofalwyr o fewn y dyraniad cyllid presennol ar gyfer 2016/2017. Dywedodd y dylai gofalwyr di-dâl gytuno i gael asesiad cyn cael eu hatgyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

25. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, ym mis Gorffennaf 2017, fod rheolwr yr awdurdod lleol wedi dweud wrth Fwrdd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot y byddai'r holl asesiadau gofalwyr yn cael eu hanfon i'w wasanaeth. Roedd gan y Bwrdd bryderon gan fod y galw'n fwy na'r capasiti ac, erbyn mis Tachwedd 2017, roedd nifer yr asesiadau'n cael effaith andwyol ar y sesiynau Gwybodaeth a Chyngor y gellid eu cynnig. Dywedodd fod hon yn broblem barhaus nad oedd wedi'i datrys a bod gofalwyr yn aros yn hirach nag yr hoffai i gael eu hasesu, gan achosi oedi o ran nodi anghenion cymwys. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, er bod gofalwyr yn cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wrth aros am asesiad ffurfiol, bod y galw am asesiadau o anghenion gofalwyr hefyd wedi effeithio ar ei wasanaeth IAA.

26. Croesawodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot benodiad Prif Swyddog newydd yn y Cyngor a oedd wedi cymryd cyfrifoldeb dros ofalwyr di-dâl. Dywedodd ei fod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i adolygu'r broses gyfan, gan ei bod yn amlwg bod Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot yn cynnal y rhan fwyaf o asesiadau o anghenion gofalwyr gyda chapasiti cyfyngedig. Roedd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot o'r farn bod angen symleiddio'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr gan sicrhau bod gofalwyr yn rhan ganolog o'r broses.

27. Dywedodd gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot wrthym fod gofalwyr yn cael eu hatgyfeirio at ei wasanaethau gan Un Pwynt Cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol 'Oracle' a heb fod angen siarad â Gweithiwr Cymdeithasol. Dywedodd, os oedd gofalwyr yn cysylltu â'r Gwasanaeth Gofalwyr yn uniongyrchol, eu bod yn cael eu cyfeirio at y Pwynt Cyswllt Unigol cyn cael eu cyfeirio'n ôl at y Gwasanaeth Gofalwyr – roedd hyn er mwyn sicrhau bod eu manylion yn cael eu cofnodi ar Oracle cyn i'w hanghenion gael eu hasesu. Mynegodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot bryderon ynghylch

gofalwyr yn gorfod ailadrodd eu gwybodaeth a'u hamgylchiadau sawl gwaith i wahanol aelodau staff cyn i'w hanghenion gael eu hasesu.

28. Dywedodd y Gwasanaeth Gofalwyr fod y dudalen atgyfeirio eisoes wedi'i llenwi pan y'i derbyniwyd, ond ni fyddai'r meysydd gwybodaeth am gydraddoldeb wedi'u llenwi. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ei fod yn defnyddio 'Cofnod Elusen' a'i fod wedi diweddaru'r system hon i gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, os oedd gofalwr yn gwrthod asesiad, ei fod yn cael ei gofnodi ar y Cofnod Elusen, gan nad oedd unrhyw le ar gael i'w staff gofnodi hyn ar system Oracle.

29. Dywedodd nad yw llawer o ofalwyr yn deall ystyr asesiad gofalwr ac y gallant gael eu datgymell ar ôl cael gwybod y bydd y wybodaeth a ddarperir ganddynt yn cael ei chynnwys ar system Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Dywedodd fod gofalwyr yn poeni eu bod yn cael eu hasesu fel gofalwyr yn hytrach na chael eu cefnogi. Dywedodd fod rhai Gweithwyr Cymdeithasol yn dweud bod yn rhaid i ofalwr gael asesiad cyn y gallant gael Taliadau Uniongyrchol neu seibiant.

30. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fod canlyniadau'n cael eu nodi yn ystod asesiad. Os mai'r canlyniad oedd gwasanaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, atgyfeiriwyd y gofalwr ar unwaith, er enghraifft, ar gyfer cwnsela, gwasanaeth gwarchod, cymorth gyda ffurflenni budd-daliadau neu wyliau byr. Fodd bynnag, os mai gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd y canlyniad, tynnwyd sylw ato a'i anfon at y Rheolwr Tîm Rhwydwaith perthnasol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w roi ar waith. Dywedodd na chafodd adborth ar ba bryd y gweithredwyd neu y darparwyd y gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i fod yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gywiro hyn. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fod ganddo staff a gwasanaethau a oedd yn cefnogi rhieni sy'n ofalwyr yn benodol, pontio gofalwyr o Wasanaethau Plant y Cyngor i Wasanaethau Oedolion a staff a gwasanaethau i gefnogi'r rheini sy'n gofalu am anwyliaid sydd â dementia.

31. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fod pob asesiad a gwblhawyd gan ei staff yn cael ei wirio a'i gymeradwyo gan reolwr, ond nid oedd unrhyw oruchwyliaeth gan y Cyngor ei hun ac ni chafodd unrhyw adborth gan y Cyngor am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

32. O ran monitro a oedd canlyniadau asesiad yn parhau i ddiwallu anghenion gofalwr, dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot nad oedd ganddo broses adolygu ffurfiol, ond roedd yn cwblhau galwadau lles i ofalwyr ac yn dosbarthu gwybodaeth am ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau. Dywedodd mai dim ond y cymorth yr oedd wedi cytuno i'w ddarparu y gallai fynd ar ei drywydd, ac nad oedd yn gallu mynd ar drywydd unrhyw gymorth a atgyfeiriwyd yn ôl at y cyngor, e.e. Taliadau Uniongyrchol. Dywedodd y gallai gofalwyr ofyn am adolygiad hefyd, pe bai eu hamgylchiadau'n newid.

33. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fod rhai o'i staff yn gymwys ar gyfer NVQ Lefel 3 neu 4 tra bo eraill yn gweithio tuag at gymhwyster. Dywedodd fod staff hefyd wedi cael eu hyfforddi mewn diogelu ac ymwybyddiaeth o ddementia. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot fod staff newydd yn cysgodi staff eraill sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr cyn gwneud eu hasesiadau eu hunain.

34. Dywedodd y Gwasanaeth Gofalwyr fod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg, pe bai gofalwyr yn dymuno i'w hanghenion gael eu hasesu yn Gymraeg, a'i fod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw ofalwyr nad y Gymraeg neu'r Saesneg oedd eu dewis iaith.

35. Dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ei fod yn nodi gofalwyr ag anghenion ychwanegol mewn sawl ffordd. Dywedodd, pan oedd yn derbyn atgyfeiriad gan weithiwr iechyd proffesiynol neu sefydliad, y byddai'n aml yn rhannu a oedd gan y gofalwr anghenion ychwanegol ai peidio ac yn cysylltu â'r gweithiwr iechyd proffesiynol neu'r sefydliad cyn cysylltu â'r gofalwr. Dywedodd fod ei weithwyr cymorth hefyd wedi cael eu hyfforddi ac yn gallu nodi anghenion ychwanegol posibl pan fyddant yn cysylltu â'r gofalwr dros y ffôn i ddechrau a phan fyddant yn eu cyfarfod i gwblhau'r asesiad. Dywedodd ei fod, ar ôl adnabod gofalwr, yn chwilio am atebion ac yn gofyn am gyngor gan sefydliadau a allai arbenigo mewn unrhyw angen ychwanegol penodol. Dywedodd fod Llais Cymru, Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Castell-nedd Port Talbot, Eiriolaeth Eich Llais a Chyngor ar Bopeth, i gyd yn darparu gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth i gefnogi gofalwyr i gyfranogi yn eu hasesiad o anghenion. Dywedodd ei fod hefyd yn annog gofalwyr i ddod â ffrind neu eiriolwr gyda nhw i'w cefnogi yn ystod eu hasesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd fod hyn wedi'i nodi fel bwlch ar ei ffurflen atgyfeirio ac y bydd yn cael ei gynnwys yn y dyfodol.

36. O ran adnabod gofalwyr, dywedodd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi mynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr, dosbarthu ei gylchlythyr i feddygfeydd, fferyllfeydd a sefydliadau partner a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth gyda Chydlynwyr Ardal y Cyngor. Dywedodd ei fod hefyd yn gweithio i wella ei wefan. Dywedodd ei fod yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda gofalwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau. Dywedodd ei fod hefyd yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr a'i fod eisoes yn gweld manteision bod yn aelod gyda manylion y gwasanaethau cefnogi ar gael i ofalwyr. Dywedodd ei fod wedi nodi bod gofalwyr sydd hefyd yn gweithio yn ei chael hi'n anodd, gan nad oeddent yn gallu mynychu grwpiau cymorth yn ystod y diwrnod gwaith, felly roedd yn gweithio gyda'r Clystyrau Gofal Sylfaenol yn ei ardal gyda'r bwriad o sefydlu Hyb Gofalwyr lle gallai fod yn bosibl cynnal digwyddiadau gyda'r nos.

37. Darparodd gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot gopïau o'i adroddiadau monitro contractau a'r ganmoliaeth a dderbyniodd gan ofalwyr sydd wedi defnyddio'i wasanaethau.

## Tystiolaeth gan staff

38. Darparwyd manylion staff awdurdodau lleol sy'n darparu IAA ac sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr gan bob un o'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Gofynnwyd i staff o'r darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd, Gofalwyr Ceredigion, NEWCIS, Adferiad a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, gymryd rhan yn yr ymchwiliad a darparu tystiolaeth. Gofynnwyd am y dystiolaeth drwy arolygon ar-lein. Gwnaed addasiad rhesymol[1] i ganiatáu i 1 aelod o staff ddarparu eu tystiolaeth ar lafar.

[1] Newid a wnaed i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig ag anabledd rhywun.

39. Mae’r tabl isod yn crynhoi nifer y staff a holwyd, a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd:

| | Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y staff a holwyd | Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd (*) | Cyfradd ymateb (**) |
|---|---|---|---|---|
| **Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** | Caerffili | 16 | 5 | 31% |
| | Ceredigion | 22 | 19 | 86% |
| | Sir y Fflint | 10 | 7 | 70% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 6 | 0 | 0% |
| **Staff lle mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhan o’u rôl** | Caerffili | 168 | 92 (8) | 55% (50%) |
| | Ceredigion | 42 | 20 (2) | 48% (43%) |
| | Sir y Fflint | 14 | 9 | 64% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 227 | 31 (11) | 14% (9%) |
| **Staff darparwr gwasanaeth wedi’i gomisiynu sy’n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr** | Caerffili*** | Amh | Amh | Amh |
| | Ceredigion | 3 | 2 | 67% |
| | Sir y Fflint | 10 | 9[2] | 90% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 4 | 3 | 75% |

* Ymatebion anghyflawn

** Cyfradd ymatebion i’r holiadur a gwblhawyd

*** Dim gwasanaethau wedi’u comisiynu

**Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

40. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion.

**Staff asesu anghenion gofalwyr**

41. Dywedodd ymatebwyr a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc y byddent yn cwblhau asesiad o anghenion gofalwyr ifanc a’i fod yn cael ei gynnig fel rhan o asesiad Plentyn a Pherson Ifanc. Dywedodd ymatebwyr a oedd yn gweithio gydag oedolion y byddent yn atgyfeirio’r gofalwr at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd rhai ymatebwyr a oedd yn gweithio gydag oedolion yn benodol na fyddent yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr.

[2] Un ar absenoldeb mamolaeth

42. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr ac roedd nifer yn teimlo nad oedd ei angen gan nad oeddent yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn eu rolau. Dywedodd rhai eu bod wedi mynychu sesiynau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr yn y gymuned.

43. Dangosodd y staff eu bod yn ymwybodol bod gan ofalwyr hawl i gael asesiad o'u hanghenion eu hunain. Dywedodd staff y byddent, pan fyddai swyddogion yn nodi oedolion sy'n ofalwyr, yn eu hatgyfeirio'n awtomatig at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot i drefnu asesiad a thrafod amrywiaeth o gymorth a gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Dywedodd y staff y gallai'r Gweithiwr Cymdeithasol hefyd gwblhau'r asesiad o anghenion gofalwyr pe bai rhestr aros yn y Gwasanaeth Gofalwyr a bod angen blaenoriaethu'r asesiad neu fod angen asesiad mwy cynhwysfawr.

44. Dywedodd staff, os oeddent yn nodi gofalwr ifanc y tybiwyd ei fod yn gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc, sy'n darparu Clwb Ieuenctid a chymorth un-i-un, y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Panel Ymyrraeth Gynnar a byddai asesiad o anghenion gofalwr ifanc yn cael ei gwblhau. Dywedasant, ar gyfer teuluoedd nad oedd yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r SPOC ar gyfer asesiad gofalwr ifanc ac anfonwyd atgyfeiriad ac asesiad at y Panel Ymyrraeth Gynnar, a bod y gofalwr ifanc yn cael ei ddyrannu i Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor ac yn cael ei wahodd i ddefnyddio'r Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr Ifanc.

45. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd ganddynt fawr ddim dealltwriaeth o'r broses asesu anghenion gofalwyr, ar wahân i'r ffaith ei bod yn cael ei chynnal i edrych ar anghenion gofalwyr. Dywedasant y byddent yn atgyfeirio gofalwyr at y Gwasanaeth Gofalwyr. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy. Dywedodd rhai eu bod yn ansicr ac y byddent yn gofyn am gyngor gan y rheolwyr. Dywedodd eraill nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses a'u bod yn ansicr a oedd dogfen ategol ar gael.

46. Dywedodd ymatebwyr y gall gofalwyr ddewis defnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith fel rhan o'r Cynnig Rhagweithiol a bod staff ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg. Dywedasant fod rhestr o siaradwyr Cymraeg o fewn y Cyngor oedd ar gael yn rhwydd ar y fewnrwyd. Dywedodd ymatebwyr y gellid llenwi dogfennau asesu yn yr Iaith Gymraeg.

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn ansicr, neu nad oedd ganddynt lawer o ddealltwriaeth, o’r mesurau sydd ar gael i ofalwyr a oedd yn dymuno defnyddio’r gwasanaeth yn Gymraeg. Dywedodd rhai ymatebwyr eraill y byddent yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu.

47. Ar gyfer gofalwyr yr oedd eu dewis iaith yn rhywbeth ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr y byddent yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu i gefnogi gofalwyr. Dywedodd un ymatebydd y gallent gysylltu â’r Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed i Blant mewn Addysg am gymorth. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn ansicr ynghylch y mesurau sydd ar waith i gefnogi gofalwyr nad Cymraeg na Saesneg oedd eu dewis iaith.

48. O ran gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu, dywedodd ymatebwyr y byddent yn addasu eu dull cyfathrebu ac yn defnyddio cymhorthion gweledol, siartiau llif, diagramau neu luniau, dogfennau syml neu Hawdd eu Darllen (system sy'n seiliedig ar luniau i helpu pobl ag anawsterau dysgu i ddeall) a Chardiau Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau. Roeddent yn dweud y byddent yn symleiddio eu iaith ac yn osgoi jargon, yn asesu eu cyflymder, yn ailadrodd ac yn gwirio dealltwriaeth y gofalwr. Roedden nhw’n dweud y bydden nhw hefyd yn ystyried unrhyw anawsterau clyw drwy ddefnyddio dyfeisiau clywed symudol ac yn ystyried gyda’r gofalwr neu ei deulu beth yw’r ffordd orau o gyfathrebu â’r gofalwr. Dywedodd ymatebwyr hefyd y gallent gael gafael ar gyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a’r Tîm Therapi Iaith a Lleferydd a’r Tîm Synhwyraidd i gael cyngor a chymorth. Dywedodd ymatebwyr fod yr holl Weithwyr Cymdeithasol wedi cael hyfforddiant rheolaidd i’w cefnogi i weithio gyda phobl sydd â nam gwybyddol neu anawsterau dysgu. Dywedodd rhai ymatebwyr y gallent gynnig cefnogaeth eiriolwr i ofalwyr. Dywedodd rhai ymatebwyr eraill nad oeddent yn siŵr pa wasanaethau oedd ar gael i gefnogi gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

49. Nid oedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr. Nododd ymatebwyr eraill y rhwystrau canlynol sy’n atal gofalwyr rhag cael asesiad o'u hanghenion:

- Nid oedd gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau nes iddynt ddod i gysylltiad â gweithwyr proffesiynol/gwasanaethau.
- Mae gofalwyr ifanc yn ofni cael eu hynysu oddi wrth eu cyfoedion ac yn teimlo’n euog am wneud rhywbeth drostynt eu hunain.
- Roedd stigma canfyddedig ynghlwm wrth gael cymorth i ddarparu gofal.
- Efallai na fydd y rôl ofalu yn cael ei chydnabod yn yr ysgol nac yn y gymuned.

- Roedd asesiadau gofalwyr ifanc yn hirfaith ac yn canolbwyntio ar anghenion gofal corfforol yn hytrach nag anghenion emosiynol.
- Nid oes digon o staff yn y Gwasanaeth Gofalwyr sy'n achosi oedi wrth gwblhau asesiadau, gan fod yr asesiadau'n cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen.
- Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn anghofio cynnig asesiadau o anghenion i ofalwyr wrth asesu'r person sy'n derbyn gofal.
- Mae angen gofal a chymorth brys ar nifer cynyddol o unigolion mewn amgylchiadau mwy cymhleth, er enghraifft, rhyddhau o ysbytai a diogelu, sy'n cael eu blaenoriaethu ar draul asesiadau o anghenion gofalwyr, a oedd yn effeithio ar y gallu i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn brydlon.
- Nid oedd gwasanaethau i gefnogi gofalwyr bob amser ar gael i ddiwallu'r anghenion a nodwyd, er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau dydd.
- Nid oedd gofalwyr yn ystyried bod ganddynt anghenion neu'n meddwl eu bod yn gofyn am ormod.
- Pryderon bod eu gallu i ofalu yn cael ei gwestiynu a'r goblygiadau posibl i'r person sy'n derbyn gofal pe bai'n cael ei ystyried nad oedd y gofalwr yn ymdopi.
- Roedd gofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn ofni y byddai'r Gweithiwr Cymdeithasol yn cwblhau'r asesiad ac yn poeni y byddent yn cael eu hystyried mewn ffordd negyddol.
- Roedd y llinell rhwng asesiadau gofalwyr ac asesiadau rhianta yn aneglur, ac nid oedd rhieni sy'n ofalwyr o reidrwydd yn gwybod y gwahaniaeth.

50. Mewn sylwadau eraill, dywedodd ymatebwyr fod y Gwasanaeth Ieuenctid bob amser yn ystyriol ac yn gefnogol i'r atgyfeiriadau a wnaed. Dywedasant yr arferid gorfod atgyfeirio achosion at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot drwy ei dîm Un Pwynt Cyswllt, ond dywedwyd wrthynt erbyn hyn y gallant atgyfeirio gofalwyr yn uniongyrchol at y Gwasanaeth Gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol gwybod canlyniad eu hatgyfeiriadau at y Gwasanaeth Gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael ysgogiad ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr yn y gwaith papur sy'n cael ei gwblhau. Dywedodd eraill y byddai mwy o ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau cysylltiedig yn ddefnyddiol, gyda rhai'n dweud nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am ba gymorth oedd ar gael a'u bod yn ansicr ynghylch rôl y Bwrdd Iechyd a gofal sylfaenol.

**Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot**

51. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant mewnol, wedi cysgodi staff profiadol sy'n cwblhau asesiadau ac wedi darllen drwy asesiadau a gwblhawyd. Dywedodd un ymatebydd eu bod hefyd wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â dementia. Dywedasant fod yr hyfforddiant a gawsant yn eu helpu i raddau mewn perthynas â'u rôl o gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr.

52. Dywedodd yr ymatebwyr fod gofalwyr yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Gofalwyr ac roedd Gweithwyr Cefnogi yn cysylltu â'r gofalwyr i drefnu bod eu hanghenion yn cael eu hasesu. Dywedodd ymatebwyr mai eu rôl nhw oedd nodi pa gymorth allai helpu'r gofalwr neu pa wasanaethau a allai fod yn briodol iddynt. Dywedasant, pe bai'r asesiad yn tynnu sylw at unrhyw wasanaethau statudol yr oedd y gofalwr yn dymuno eu harchwilio, y byddai'r mater yn cael ei atgyfeirio at Weithiwr Cymdeithasol i'w asesu ymhellach. Dywedodd ymatebwyr, os nad oedd angen cymorth statudol, na chafodd y Cyngor wybod am ganlyniad yr asesiad.

53. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent wedi gweld proses ffurfiol ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr neu nad oeddent yn siŵr ble i ddod o hyd iddi. Dywedodd un ymatebwr ei fod yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr a'i bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy.

54. Lle mai Cymraeg oedd dewis iaith y gofalwr, dywedodd rhai ymatebwyr y byddai aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg yn helpu gyda'r asesiad, neu y byddai cyfieithydd yn cael ei ddefnyddio. Yn yr un modd, lle nad Cymraeg na Saesneg oedd dewis iaith gofalwr, dywedodd ymatebwyr y byddai cyfieithydd yn cael ei ddefnyddio i hwyluso'r asesiad. Dywedodd un ymatebydd nad oedd unrhyw fesurau ar waith i ganiatáu i ofalwr nad oedd yn siarad Saesneg gael asesiad o'i anghenion.

55. O ran anawsterau cyfathrebu, dywedodd ymatebwyr y byddent yn gyntaf yn nodi unrhyw anawsterau cyfathrebu ac y gallent fod yn ddigon hyderus i helpu. Dywedodd ymatebwyr y dylid tynnu sylw at anawsterau cyfathrebu wrth atgyfeirio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gofalwyr yn gallu diwallu eu hanghenion. Dywedasant y gallent ofyn i aelod o'r teulu neu ffrind y gofalwr gynorthwyo gydag asesiad. Dywedasant y gellid defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer gofalwyr sydd ag anawsterau clywed. Roedd rhai ymatebwyr yn ansicr

pa fesurau penodol oedd gan y Gwasanaeth Gofalwyr ar waith i gynorthwyo gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.  Dywedodd un ymatebydd nad oedd unrhyw fesurau ar waith i gynorthwyo rhai ag anawsterau cyfathrebu i gael asesiad o'u hanghenion.

56. O ran rhwystrau i asesu eu hanghenion, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon nad oedd digon o staff i reoli nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, a arweiniodd at oedi hir o ran asesu anghenion gofalwyr.  Dywedasant nad asesu anghenion gofalwyr oedd unig bwrpas yr elusen, ond oherwydd swm yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, dyna oedd yn mynd â'r rhan fwyaf o'u hamser.  Dywedodd un ymatebydd nad oedd yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr.

57. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon, pan oedd gofalwyr yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Gofalwyr, nad oedd gofalwyr yn cael gwybod beth oedd asesiad o anghenion gofalwr, na beth oedd ei ddiben.  Dywedasant fod Gweithwyr Cymdeithasol yn aml yn atgyfeirio achosion brys at y Gwasanaeth Gofalwyr, pan nad oedd y gefnogaeth yr oedd yn gallu ei chynnig yn addas i ddiwallu anghenion y gofalwr, gan olygu bod y Gwasanaeth Gofalwyr yn gorfod cysylltu â Gweithwyr Cymdeithasol.  Dywedasant, mewn rhai achosion, fod amgylchiadau'r gofalwr eisoes wedi troi'n argyfwng, ond nad oedd gan y Gweithiwr Cymdeithasol fawr ddim cysylltiad, os o gwbl, â'r gofalwr.

58. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon bod llawer o ofalwyr yn jyglo gwaith, eu teuluoedd eu hunain, materion iechyd meddwl eu hunain a straen ariannol a bod disgwyl i lawer o ofalwyr barhau i ofalu, er eu bod wedi sôn wrth eu meddyg teulu neu eu Gweithiwr Cymdeithasol eu bod yn cael anawsterau.  Dywedasant fod amseroedd aros ar gyfer pecynnau gofal neu apwyntiadau'r GIG hefyd yn rhoi straen ar ofalwyr.  Mynegodd ymatebwyr bryderon nad oedd rhai gofalwyr yn gallu gofalu am eu iechyd eu hunain, er enghraifft, i fynd i apwyntiadau meddygon teulu, gan nad oeddent yn gallu gadael y person sy'n derbyn gofal ar eu pen eu hunain.  Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cael profiad o ofalwyr yn gorfod brwydro i gael popeth gan yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol neu gymdeithasau tai.

59. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon pellach ynghylch y nifer cyfyngedig o asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n cael eu cwblhau gan y Cyngor.  Dywedasant fod unrhyw gymorth a roddwyd ar waith gan y Cyngor yn tueddu i gael ei gofnodi yng nghofnodion y person sy'n derbyn gofal ac er bod anghenion y gofalwr yn cael eu diwallu, nid oeddent yn gysylltiedig â'r system.

## Tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad bywyd

### Gofalwr N – Castell-nedd Port Talbot

60. Mae Gofalwr N yn gofalu am ei bartner. Dywedodd Gofalwr N ei fod wedi clywed am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr yn 2018 wrth chwilio'r rhyngrwyd am wybodaeth ynghylch Lwfans Gofalwyr. Hunan-atgyfeiriodd Gofalwr N at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot y tro cyntaf a threfnwyd ei asesiad yn gyflym. Dywedodd ei fod wedi cael gwybod y gallai cael asesiad o'i anghenion arwain at gael mwy o help gyda'i gyfrifoldebau gofalu. Dywedodd Gofalwr N ei fod wedi cael ei atgoffa yn 2022 o'i hawl i gael asesiad o anghenion pan wnaeth gweithwyr iechyd proffesiynol ei bartner anfon atgyfeiriad at Wasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot am ailasesiad. Dywedodd Gofalwr N ei bod wedi cymryd peth amser i'r Gwasanaeth Gofalwyr gysylltu ag ef oherwydd camgyfathrebu, ond ar ôl cysylltu ag ef, trefnwyd asesiad yn gyflym. Dywedodd ei fod o dan yr un argraff yr eildro, y gallai asesiad arwain at gymorth ymarferol gyda'i rôl gofalu.

61. Dywedodd Gofalwr N ei fod wedi cael yr argraff fod ei anghenion yn cael eu hasesu fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun, ond gan fod ei bartner yn bresennol yn ystod y ddau asesiad, roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar anawsterau ei bartner.

62. Dywedodd Gofalwr N, yn dilyn yr asesiad cyntaf, ei fod yn wyliadwrus o dderbyn cymorth ymarferol gan ei fod yn teimlo y dylai allu darparu'r gofal yr oedd arno ei angen ei hun. Dywedodd fod ei faich ef yn ariannol, a gofynnodd am help gyda hyn, ond chafodd fawr ddim. Dywedodd Gofalwr N yn ystod yr ail asesiad, fod rhywun wedi egluro wrtho nad oedd cymorth ymarferol yn bosib ac os oedd angen cymorth arno i ofalu, y byddai'n rhaid i'r cymorth hwnnw ddod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ffurf Taliadau Uniongyrchol er mwyn i'w bartner allu cyflogi gofalwr â thâl. Dywedodd Gofalwr N ei fod wedi cael cynnig therapi/cwnsela o ganlyniad i'w ail asesiad o anghenion, ond nad yw wedi cael unrhyw beth eto.

63. Dywedodd Gofalwr N ei fod yn teimlo'n siomedig gyda chanlyniad ei asesiadau. Dywedodd ei fod wedi cymryd rhan yn y broses gan ei fod yn ei chael hi'n anodd, ond roedd y diffyg canlyniad pendant yn golygu na chafodd ei anawsterau eu lleddfu. Dywedodd ei fod wedi gobeithio cael rhywfaint o help o ran cyllid neu seibiant, ond roedd gwahoddiad agored i ddigwyddiadau'r Gwasanaeth Gofalwyr yn teimlo fel gwastraff amser llwyr. Dywedodd Gofalwr N fod ei asesiadau'n teimlo fel gwastraff amser hefyd a'i fod wedi methu'n llwyr â chyfleu pa mor anobeithiol a blinedig ydoedd weithiau. Dywedodd Gofalwr

N nad oedd ei anghenion yn cael eu diwallu, ac nad oedd y cymorth a gynigiwyd yn diwallu ei anghenion.

64. Dywedodd Gofalwr N y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gwybod pa gymorth a allai fod ar gael neu astudiaethau achos i gael syniad gwell o sut roedd y Gwasanaeth Gofalwyr wedi helpu gofalwyr eraill. Byddai hyn yn helpu gofalwyr i uniaethu â'r sefyllfaoedd hynny ac i wneud cais mwy penodol am gymorth yn ystod eu hasesiad eu hunain.

65. Dywedodd Gofalwr N fod yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn ei ddewis iaith ac na chynigiwyd eiriolwr iddo, ond nad oedd angen un arno. Yn ôl Gofalwr N, dywedwyd wrtho y byddai'n cael copi o'i asesiad cyntaf, ond welodd ef erioed yr asesiad hwn. Dywedodd ei fod wedi cael copi o'i ail asesiad.

**Gofalwr O – Castell-nedd Port Talbot**

66. Mae Gofalwr O yn gofalu am ei gŵr, ei mab a'i rhieni. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am ei gŵr a'i mab ac roedd hyn wedi effeithio ar sefyllfa ariannol y teulu. Dywedodd Gofalwr O, yn dilyn argyfwng meddygol a oedd yn ymwneud â'i gŵr, fod Gweithiwr Cymdeithasol wedi dod yn gysylltiedig â'r teulu ac wedi rhoi gwybod i Ofalwr N am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ac am wasanaethau Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot.

67. Dywedodd Gofalwr O fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi'i hatgyfeirio at y Gwasanaeth Gofalwyr a bod ei hasesiad cyntaf wedi'i gwblhau o fewn mis. Dywedodd fod ei hanghenion wedi cael eu hasesu ochr yn ochr â'i mab. Dywedodd Gofalwr O, o ganlyniad i'r asesiad, fod gwirfoddolwr wedi mynd â'i phlant allan i roi seibiant iddynt rhag gofalu am ei gŵr a rhag bod yn y tŷ. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi cael gwybod am rai grwpiau cymorth, ond nad oedd yn gallu mynychu'r rhain gan eu bod yn digwydd yn ystod ei horiau gwaith.

68. Dywedodd Gofalwr O nad oedd ei asesiadau dilynol o anghenion gofalwr yn llawer gwell, ond bod yr ail asesiad yn fwy perthnasol iddi hi fel gofalwr na'r asesiad cyntaf. Dywedodd Gofalwr O fod yr ail asesiad yn gyfeillgar ac yn hamddenol iawn ac ar ôl egluro bod y galw arni fel gofalwr wedi cynyddu, gofynnwyd iddi beth oedd arni ei eisiau. Dywedodd Gofalwr O nad oedd hi'n siŵr beth roedd hi ei eisiau a gofynnodd beth y gellid ei ddarparu i'w chefnogi. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi cael gwybod nad oedd yr asesiad yn gweithio yn y ffordd honno, a mater i'r gofalwr oedd dweud yr hyn yr oedd arno ei eisiau

ac i’r Gwasanaeth Gofalwyr benderfynu a oedd hynny’n bosib. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi dweud wrthynt ei bod am gael “bywyd cwbl rydd” ac i’r teulu fod yn hapus. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi gofyn am gymorth gyda gwaith tŷ, ond na allai fforddio’r gwasanaeth glanhau a gynigiwyd oherwydd ei bod ar incwm isel. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi holi am grwpiau cymorth y gallai ei gŵr fynd iddynt i roi seibiant iddi ond dywedwyd wrthi nad oedd unrhyw rai ar gael. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi cael cynnig cwnsela ond bod rhestr aros hir.

69. Dywedodd Gofalwr O ei bod wedi dod o hyd i sefydliad elusennol arall yn y cyfamser, y tu allan i ardal ei hawdurdod lleol. Dywedodd Gofalwr O fod y gwasanaeth hwn wedi darparu cwnsela iddi, a’i bod yn mynd i grŵp cymorth bob wythnos. Dywedodd Gofalwr O nad oedd Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot wedi’i chyfeirio at wasanaethau’r grŵp hwn a’i bod wedi dod o hyd i’r sefydliad yng nghyfeiriadur Dewis.

70. Dywedodd Gofalwr O nad oedd anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu’n dda iawn yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Aeth Gofalwr O ati i ganmol y staff yng Ngwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot ond dywedodd fod angen i’r Gwasanaeth Gofalwyr fod yn fwy cydnaws â Gwasanaethau Cymdeithasol a bod angen i’r staff fod yn fwy ymwybodol o’r gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardal i gefnogi gofalwyr, yn enwedig i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol grwpiau o ofalwyr, ee gofalwyr ifanc sy’n oedolion a gofalwyr dan 55 oed. Dywedodd Gofalwr O y byddai’n sicr yn hoffi gweld mwy o grwpiau ‘coffi a sgwrsio’ y tu allan i oriau gwaith gan fod cynifer o ofalwyr yn gweithio ochr yn ochr â’u rôl gofalu.

71. Dywedodd Gofalwr O fod yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn ei dewis iaith, ond na chynigiwyd gwasanaethau eiriolaeth iddi.

**Gofalwr P – Castell-nedd Port Talbot**

72. Mae Gofalwr P yn gofalu am ei thad ac mae ei anghenion gofal ef wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd Gofalwr P ei bod weithiau’n teimlo ei bod hi’n mynd o un dasg i’r llall ar ôl gadael y gwaith, nad oedd hi byth yn cysgu’n dda gan ei bod hi’n gwrando am ei thad, ac nad oedd hi byth yn “ymlacio”. Dywedodd Gofalwr P ei bod wedi gorfod cael amser o’r gwaith oherwydd straen. Dywedodd Gofalwr P nad yw pobl yn sylweddoli pa mor anodd yw darparu gofal ochr yn ochr â gweithio’n llawn amser. Dywedodd ei bod hi’n anodd derbyn gwaith galw i mewn a’i bod hi’n teimlo nad oedd digon o oriau yn ystod y dydd. Dywedodd Gofalwr P ei bod wedi clywed bod ganddi hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr drwy Weithiwr Cymdeithasol.

73. Dywedodd Gofalwr P fod yr asesiad yn cynnwys meysydd amrywiol gan gynnwys gwaith, cymorth a ddarperir gan deulu a ffrindiau, iechyd meddwl a llesiant. Dywedodd Gofalwr P ei bod wedi cael cynnig gwasanaeth eistedd gyda phobl, ond ei bod yn dal i aros am gadarnhad. Dywedodd Gofalwr P fod ei thad hefyd yn cael gofal seibiant am 3 wythnos y flwyddyn a bod ganddo becyn gofal ar waith. Dywedodd Gofalwr P fod y broses wedi cymryd misoedd i rywun wrando arni a'i bod yn teimlo'n ynysig.

74. Dywedodd Gofalwr P ei bod yn hapus gyda chanlyniad yr asesiad a'i bod yn falch bod ei llais yn cael ei glywed a'i bod yn cael cymorth gyda seibiant. Dywedodd Gofalwr P fod yr asesiad yn bodloni ei disgwyliadau. Dywedodd Gofalwr P y byddai'n ddefnyddiol petai'r Cyngor yn darparu pecyn gwybodaeth i ofalwyr, ond roedd yn canmol gwasanaethau Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot gan ei fod yn canolbwyntio ar y gofalwr yn hytrach na'r rhai sy'n derbyn gofal. Dywedodd Gofalwr P hefyd ei bod yn anodd gorfod ailadrodd gwybodaeth i wahanol bobl a byddai'n ddefnyddiol petai un pwynt cyswllt. Dywedodd Gofalwr P y byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnal adolygiadau rhagweithiol a rheolaidd o anghenion gofalwyr i weld a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol ar y gofalwr.

75. Dywedodd Gofalwr P fod yr asesiad wedi cael ei gynnal yn ei dewis iaith. Dywedodd Gofalwr P ei bod o bosib wedi derbyn copi o'i hasesiad drwy ebost.

**Gofalwr Q – Castell-nedd Port Talbot**

76. Mae Gofalwr Q yn gofalu am ei wraig ac fe glywodd am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ac am y gwasanaethau sydd ar gael drwy ei Gweithiwr Cymdeithasol. Dywedodd Gofalwr Q fod ei asesiad wedi'i drefnu'n eithaf cyflym a'i fod wedi'i gynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel asesiad ar y cyd ochr yn ochr â'i wraig, er na allai hi gymryd rhan yn yr asesiad. Dywedodd Gofalwr Q, o ganlyniad i'r asesiad, bod pecyn gofal wedi'i ddarparu ar gyfer ei wraig, a'i fod yn fodlon ar y gwasanaeth a gafwyd gan fod y cymorth a ddarparwyd yn diwallu ei anghenion ef hefyd.

77. Dywedodd Gofalwr Q fod yr asesiad yn brofiad da gan ei fod yn egluro'r gwasanaethau sydd ar gael. Dywedodd Gofalwr Q ei fod wedi gwneud iddo sylweddoli nad oedd yn gallu darparu'r holl wasanaethau oedd eu hangen i ofalu am ei wraig gan nad oedd yn gallu gofalu amdani 24 awr y dydd.

78. Dywedodd Gofalwr Q fod yr asesiad wedi'i gynnal yn ei ddewis iaith, ac nad oedd angen gwasanaethau eiriolwr arno. Dywedodd Gofalwr Q na roddwyd copi iddo o'r asesiad a gwblhawyd.

**Gofalwr R – Castell-nedd Port Talbot**

79. Roedd Gofalwr R yn gofalu am ei mam ac yn gweithio'n llawn amser. Roedd Gofalwr R yn ofalwr o bell, sy'n golygu nad oedd yn byw yn yr un ardal awdurdod lleol â'i mam. Wrth i anghenion ei mam gynyddu, dywedodd Gofalwr R fod ei hiechyd ei hun wedi dechrau dioddef.

80. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi clywed am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ar ôl cysylltu â Carers UK, ond ei bod yn anodd cael gwybodaeth am hawliau sy'n benodol i ofalwyr yng Nghymru. Dywedodd Gofalwr R ei bod yn fwy anodd gan nad oedd un safon ledled Cymru a bod pob awdurdod lleol yn gwneud ei beth ei hun. Dywedodd Gofalwr R ei bod yn anodd cael yr wybodaeth angenrheidiol a'r "arfau" i fynd "benben" â'r awdurdod lleol gan na fydd gofalwr yn gwybod pa gymorth y dylai fod yn ei gael, ac yn aml rhoddodd yr awdurdodau lleol dan sylw gamwybodaeth iddi.

81. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi gorfod brwydro am ei hasesiad cyntaf pan oedd hi'n ei chael hi'n anodd iawn. Dywedodd ei bod wedi cysylltu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a dywedwyd wrthi mai ei hawdurdod lleol ei hun oedd yn gyfrifol am gynnal asesiad o anghenion gofalwr gan nad oedd yn byw yn ardal y Cyngor. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi siarad â Hyrwyddwr Gofalwyr yn ei phractis meddyg teulu, ond nad oedden nhw'n gwybod beth oedd ei hawliau a'u bod ond yn gallu ei chyfeirio at gymorth yn ei hardal. Dywedodd Gofalwr R ei bod hi angen i Gyngor Castell-nedd Port Talbot ddeall y byddai angen iddo unioni'r sefyllfa pan, neu petai ei pherthynas fel gofalwr yn chwalu, a bod angen i'r Cyngor ddeall yr effaith yr oedd ei rôl gofalu yn ei chael arni.

82. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi siarad wedyn â'i hawdurdod lleol ei hun a ddywedodd wrthi'n bendant nad ei gyfrifoldeb ef oedd asesu anghenion y gofalwr. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedyn wedi cysylltu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a dweud wrtho nad oedd hi'n gofyn iddo wneud unrhyw beth na'i chyfeirio at wasanaethau ond ei bod yn gofyn iddo ddeall yr effaith a'r sefyllfa yr oedd hi'n ei hwynebu fel gofalwr i'w mam. Dywedodd Gofalwr R fod y Cyngor wedi cytuno yn y pen draw i gwblhau asesiad o anghenion gofalwr.

83. Dywedodd Gofalwr R fod Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau asesiad hir gyda hi ac wedi mynd drwy bopeth o ran ei hanghenion ei hun fel gofalwr. Dywedodd Gofalwr R fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi tynnu sylw at y tasgau roedd hi'n eu cwblhau fel gofalwr a'r amser roedd y tasgau hynny'n ei gymryd. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi cael sioc pan ddarllenodd yr asesiad; gwnaeth iddi sylweddoli ei bod mewn argyfwng, a chafodd ei chymeradwyo wedyn i gael amser o'r gwaith.

84. Dywedodd Gofalwr R fod y ddogfen asesu yn ddefnyddiol iawn gan ei bod wedi gallu ei rhannu â'i meddyg teulu a'i staff iechyd galwedigaethol yn ei gweithle.

85. Dywedodd Gofalwr R fod ei mam wedi cael ei derbyn i'r ysbyty ar ddau achlysur, a'i bod wedi gorfod bod yn "lletchwith" gyda'r ysbyty i sicrhau bod ei mam yn cael ei hasesu gan Therapydd Galwedigaethol cyn iddi gael ei rhyddhau. Dywedodd Gofalwr R fod hyn wedi arwain at becyn gofal i'w mam.

86. Dywedodd Gofalwr R fod y pandemig wedi bod yn anodd gan ei bod wedi gorfod treulio mwy o amser gyda'i mam, bod anghenion ei mam yn cynyddu a bod ei phecyn gofal wedi cynyddu. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi gofyn i'r Cyngor am ailasesiad o'i hanghenion ei hun. Dywedodd Gofalwr R fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi newid erbyn hyn, a bod cael gwasanaeth di-dor yn anodd iawn. Dywedodd fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi dweud wrthi eto mai ei hawdurdod lleol ei hun oedd yn gyfrifol am gynnal asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd Gofalwr R fod ei hawdurdod lleol ei hun wedi cytuno i gynnal asesiad o anghenion gofalwr a'i fod wedi cael ei roi ar gontract allanol i elusen a oedd wedi llenwi holiadur. Dywedodd nad oedd cyfle i gael sgwrs rydd y tro hwn ac nad oedd wedi ei helpu.

87. Dywedodd Gofalwr R fod ei hiechyd ei hun wedi dirywio, a'i bod yn cael trafferth rheoli ei diabetes, ac roedd wedi gallu ymdopi â hynny gan ddefnyddio deiet ac ymarfer corff pan oedd ei mam yn sefydlog. Dywedodd Gofalwr R fod anghenion ei mam wedi cynyddu, ac roedd hi'n darparu gofal am 20 awr mewn wythnos dda a 30 awr mewn wythnos wael; dywedodd ei bod hi'n cydbwyso ei rôl gofalu â gwaith ac yn aml nid oedd hi'n cyrraedd adref tan 9pm neu 10pm.

88. Yn 2022, dywedodd Gofalwr R fod y cwmni sy'n darparu pecyn gofal ei mam wedi gadael yr ardal ac nad oedd y Cyngor yn gallu gwarantu cymorth parhaus. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi colli arni'i hun yn llwyr gan ei bod yn gweithio bob awr o'r dydd ac yn darparu 20-30 awr o ofal a chefnogaeth emosiynol i'w mam. Dywedodd Gofalwr R fod

pecyn gofal ei mam wedi cynyddu wedyn i 4 galwad y dydd, ond ni fyddai Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ailasesu ei hanghenion ei hun fel gofalwr. Dywedodd Gofalwr R ei bod wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru a'i bod wedi cael copi o'u polisi gofalwyr a oedd yn nodi'n glir mai'r awdurdod lleol lle'r oedd y person a oedd yn derbyn gofal yn byw oedd yn gyfrifol am gynnal asesiad o anghenion gofalwr.

89. Dywedodd Gofalwr R ei bod yn ansicr pa waith yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at y polisi sy'n ymwneud â gofalwyr. Dywedodd Gofalwr R na ddylai orfod dod o hyd i'r wybodaeth drosti'i hun na gorfod mynd ar drywydd yr awdurdodau lleol. Roedd Gofalwr R o'r farn y dylid cael polisi Cymru gyfan, a ffurflenni safonol ar gyfer asesu anghenion gofalwyr gyda fformat a chwestiynau safonol, a chynllun gweithredu dilynol.

90. Pan oedd hi mewn cysylltiad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, dywedodd Gofalwr R ei bod hi wedi clywed ei fod wedi gwrthod cwblhau asesiad o anghenion gofalwr gyda gofalwr o bell arall. Roedd hi'n argyhoeddedig mai dim ond oherwydd ei swydd, lle'r oedd hi wedi arfer delio â sefydliadau'r llywodraeth a chael y mathau hynny o sgyrsiau, yr oedd wedi cael yr hyn a gafodd. Dywedodd Gofalwr R y byddai cynifer o bobl wedi methu gwneud yr hyn yr oedd hi wedi'i wneud.

91. Dywedodd Gofalwr R fod y cymorth a gafodd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot yn dda yn y pen draw, ond y peth anodd oedd cyrraedd y sefyllfa honno yn y lle cyntaf. Dywedodd Gofalwr R fod pobl yn mynd i ofalu yn ddiofyn. Dydyn nhw ddim yn sylweddoli eu bod yn gofalu am rywun am eu bod yn deulu, yn enwedig os ydynt yn oedrannus, ac ymhen dim, maen nhw mewn sefyllfa o argyfwng. Roedd Gofalwr R o'r farn y gallai cysylltiadau gwell neu gryfach rhwng practisau meddygon teulu a Gwasanaethau Cymdeithasol wella'r cymorth gan mai un o'r mannau cyntaf y mae gofalwyr yn tueddu i fynd yw at eu meddyg teulu pan fydd eu hiechyd yn dirywio oherwydd eu rôl gofalu.

**Gofalwr S – Castell-nedd Port Talbot**

92. Roedd Gofalwr S yn gofalu am ei thad o 2009 ymlaen. Clywodd Gofalwr S am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr pan neilltuwyd Gweithiwr Cymdeithasol i'w thad yn 2022. Dywedodd Gofalwr S ei bod yn ei chael hi'n anodd a bod angen help arni. Dywedodd Gofalwr S fod yr asesiad wedi'i drefnu dros y ffôn, a'i bod wedi cael ei hasesu yn ei chartref. Dywedodd Gofalwr S ei bod wedi cymryd misoedd lawer i gael ei hasesu; roedd yn gyfnod rhy hir gan ei bod eisoes wedi gofyn i rywun arall am help erbyn iddi gael ei hasesu.

93. Dywedodd Gofalwr S fod yr asesiad yn cadarnhau ei thrafferthion ac yn dangos iddi pa mor anodd oedd ei rôl gofalu. Dywedodd Gofalwr S ei fod wedi gwneud iddi sylweddoli cymaint o waith gwych roedd hi'n ei wneud mewn sefyllfa anodd. Cytunodd â chanlyniad yr asesiad ond roedd o'r farn y byddai wedi bod yn fwy buddiol ei gael o'r cychwyn cyntaf. Dywedodd Gofalwr S fod yr asesydd yn ofalgar iawn ac yn deall ei sefyllfa ac yn ei helpu i resymoli'r sefyllfa ac i brosesu'r ffaith bod ei theimladau'n ddilys. Dywedodd Gofalwr S nad oedd yn teimlo ei bod ar ei phen ei hun ar ôl ei hasesiad a'i bod wedi cael gwybodaeth am grwpiau cymorth gofalwyr lleol a'i bod yn gwybod y gallai ofyn am gymorth os oedd angen. Dywedodd Gofalwr S ei bod yn gwerthfawrogi syniadau ac arweiniad yr aseswyr.

94. Dywedodd Gofalwr S fod yr asesiad wedi'i gwblhau yn ei dewis iaith ac nad oedd angen eiriolwr arni. Dywedodd na roddwyd copi o'i hasesiad o anghenion gofalwr iddi. Yn ôl Gofalwr S, nid yw ei hanghenion wedi cael eu hailasesu gan fod ei thad mewn gofal preswyl preifat llawn amser.

95. Dywedodd Gofalwr S y dylai pobl sy'n cyflawni rôl gofalu fod yn ymwybodol o'u hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ac i gael asesiad o'u hanghenion yn gynt. Dywedodd fod ei hiechyd corfforol a meddyliol wedi dioddef, ac efallai y gellid bod wedi osgoi hyn petai'n gwybod am ei hawliau'n gynt.